

STRATEGAETH HYGRCHEDD

Awdur	Tîm Ymgynghorol ADY (Sue Davidson)
Dyddiad	Chwefror 2016
Dyddiad Adolygu	Chwefror 2020
Rhif Fersiwn	V1.0

CYNNWYS

	Rhif	Tud.
Cyflwyniad		3
Fframwaith Deddfwriaethol		4
Diffiniadau		7
Cyd-destun Sir Ddinbych		7
Dyletswyddau'r Awdurdod Lleol ac Ysgolion		9
Gwella Cyfranogiad yn y Cwricwlwm		9
Gwella'r Amgylchedd Ffisegol		11
Gwella Darparu Gwybodaeth		14
Trefniadau Monitro, Adolygu a Gwerthuso		16

CYFLWYNIAD

Nod cyffredinol y strategaeth hon yw sicrhau bod Cyngor Sir Ddinbych yn cefnogi'r ysgolion y mae'n gyfrifol amdanynt, i ddiwallu anghenion disgyblion anabl a chodi eu cyraeddiadau. Pwrpas y strategaeth yw sicrhau bod mynediad i'r cwricwlwm, yr amgylchedd ffisegol a gwybodaeth i ddisgyblion anabl yn ganolog i'r ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu gan gefnogi ysgolion gyda'u cynlluniau hygyrchedd.

FFRAMWAITH DEDDFWRIAETHOL

Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diogelu pobl rhag gwahaniaethu, erledigaeth ac aflonyddu ar sail y nodweddion canlynol:

- Oed;
- Anabledd;
- Ailbennu rhywedd;
- Beichiogrwydd a Mamolaeth;
- Hil;
- Crefydd neu (ddiffyg crefydd);
- Rhyw;
- Tueddfryd rhywiol.

Datblygwyd y Ddeddf i gryfhau, cysoni a symleiddio 40 mlynedd ac 116 o ddarnau o ddeddfwriaeth cydraddoldeb, gwella ei heffeithiolrwydd a sicrhau'r un lefel o ddiogelwch rhag gwahaniaethu i bob nodwedd warchoddedig. Mae'r Ddeddf yn disodli'r holl gyfraith cydraddoldeb presennol, yn cynnwys:

- Deddf Cyflog Cyfartal 1970
- Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975
- Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976
- Deddf Gwahaniaethau ar sail Anabledd 1995

O dan y ddeddfwriaeth newydd mae'r diogelwch rhag gwahaniaethu, erledigaeth ac aflonyddu sydd eisoes yn ei le'n parhau, gyda'r Ddeddf newydd yn sicrhau bod gan rai nodweddion gwarchoddedig yr un diogelwch â'r rhai sydd eisoes yn bodoli.

Yn ôl Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus rhaid i bob awdurdod cyhoeddus ystyried yr angen i:

- Ddileu gwahaniaethu ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf;
- Hybu cyfle cyfartal
- Meithrin cysylltiadau da.

Mae gan Sir Ddinbych gynllun Cydraddoldeb Strategol (2012-2016) a luniwyd o ganlyniad i ofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Cyn cyflwyno Deddf Cydraddoldeb 2010, roedd tri phrif faes o ddeddfwriaeth a oedd yn cefnogi plant a phobl ifanc anabl mewn ysgolion:

- Fframwaith Anghenion Addysg Arbennig (Rhan IV o Ddeddf Addysg 1996);
- Dyletswyddau Gwasanaethu ar sail Anabledd (Adrannau 28A – 28C, 28F, 28G, 28K, 28L o Ddeddf Gwasanaethu ar sail Anabledd 1995); a
- Dyletswyddau Cynllunio (Adrannau 28D - 28E o Ddeddf Gwasanaethu ar sail Anabledd 1995)

Pwrpas y Fframwaith AAA yw nodi a darparu ar gyfer anghenion addysgol arbennig plant unigol, rhai ohonynt efallai'n anabl, ag angen darpariaeth arnynt sy'n ychwanegol at, neu'n wahanol i ddarpariaeth sydd fel arfer ar gael mewn ysgolion a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol (ALI). Mae Cod Ymarfer AAA Cymru (2002) yn darparu canllawiau ar gyfer ysgolion ac ALI ynglŷn â Fframwaith AAA.

Mae disgwyl i blant sydd â Datganiad Anghenion Addysgol Arbennig gael eu haddysgu mewn ysgol prif ffrwd oni bai bod hynny'n mynd yn groes i ddymuniad eu rheini neu'n anghydnaws ag addysg effeithlon plant eraill. Mae'n rhesymol disgwyl y bydd y cynlluniau i wella mynediad i ddisgyblion anabl yn cefnogi cynhwysiant plant a phobl ifanc sydd â Datganiad Anghenion Addysgol Arbennig.

Roedd gan ysgolion ac ALI eisoes gyfrifoldeb statudol ers 1996 o dan y Ddeddf Gwasanaethu ar sail Anabledd, ac ers Medi 2002, mae wedi bod yn anghyfreithlon i ysgolion ac ALI wahaniaethu yn erbyn disgyblion anabl wrth wneud trefniadau i dderbyn plant ai peidio ac ar gyfer darparu addysg gwasanaethau cysylltiedig.

O dan y dyletswyddau hyn, roedd yn rhaid i ysgolion ac ALI:

- Sicrhau nad oedd disgyblion anabl yn cael eu trin yn llai ffafriol na disgyblion eraill;
a
- Chymryd camau rhesymol i osgoi rhoi disgyblion anabl o dan anfantais sylweddol (Y Ddyletswydd 'Addasiad Rhesymol').

Mae Atodlen 10 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol/cyrff sy'n gyfrifol am ysgolion i gynllunio er mwyn cynyddu mynediad i'w hysgolion.

Wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn mae ALI ac ysgolion o dan ddyletswydd i baratoi Cynlluniau a Strategaethau Hygyrchedd. Dylai'r strategaethau a'r cynlluniau ganolbwyntio ar:

- Gynyddu'r graddau y gall disgyblion anabl gymryd rhan yng nghwricwlwm yr ysgol;
- Gwellu amgylchedd ffisegol ysgolion er mwyn cynyddu'r graddau y gall disgyblion anabl fanteisio ar addysg a gwasanaethau cysylltiedig mewn ysgolion; a
- Gwellu'r modd y mae gwybodaeth ysgrifenedig sy'n cael ei darparu i ddisgyblion yn cael ei darparu i ddisgyblion anabl.

Dylai strategaethau a chynlluniau gwmpasu cyfnod o dair blynedd a chael eu hadolygu a'u diwygio'n ôl yr angen, gan baratoi cynlluniau a strategaethau newydd bob tair blynedd.

Diffiniadau

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio disgybl anabl fel 'rhywun sydd â nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a thymor hir ar ei allu ef neu hi i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd'.

Mae nam corfforol neu feddyliol yn cynnwys nam ar y synhwyrau ac anawsterau dysgu. Mae'r diffiniad hefyd yn cynnwys rhai cyflyrau meddygol sy'n cael effaith sylweddol a thymor hir ar fywyd bob dydd unigolyn. Mae cyflyrau iechyd meddwl hefyd yn cael eu cynnwys os ydyn nhw'n glefydau clinigol wedi eu cydnabod.

Mae'r diffiniad yn cynnwys yn unig 'Y rhai â nam sy'n fwy na nam bychan neu ddinod, ac sy'n ymestyn y tu hwnt i ystod arferol gwahaniaethau a gallu sy'n bodoli'.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn cydnabod bod pobl â nam yn cael eu heffeithio fwy gan rwystrau cymdeithasol (e.e. ffisegol, amgylcheddol, trefniadaethol ac agweddol, ayb) na gan y nam sydd arnynt. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddileu'r holl rwystrau hyn i'w wasanaethau.

Ni ddylid ystyried yn awtomatig fod angen addysgol arbennig ar blant a phobl ifanc sydd ag anabledd. Mae'r Ddeddf Addysg (1996) yn datgan bod 'gan blant angen addysgol arbennig os oes ganddynt anhawster dysgu sy'n galw am ddarpariaeth addysgol arbennig ar eu cyfer.' Mae gan blant a phobl ifanc anhawster dysgu os:

- Ydynt yn cael anhawster sy'n sylweddol fwy o ran dysgu na mwyafrif y plant neu'r bobl ifanc o'r un oed;
- Os oes ganddynt anabledd sy'n eu hatal neu'n eu rhwystro rhag defnyddio cyfleusterau addysgol o'r math sy'n cael eu darparu'n gyffredinol i blant a phobl ifanc o'r un oed mewn ysgolion o fewn ardal yr Awdurdod Lleol; ac dan oedran ysgol gorfodol ac yn dod o dan y diffiniadau uchod, neu y bydden nhw'n gwneud hynny pe na bai darpariaeth addysgol arbennig yn cael ei gwneud ar eu cyfer.


Cyd-destun Sir Ddinbych

Mae Cynllun Lles Sir Ddinbych yn datgan mai ei flaenoriaethau yw

- Cyfranogiad pobl ifanc
- Cadw pobl ifanc yn ddiogel
- Dysgu Anffurfiol
- Dysgu Ffurfiol
- Darllen, ysgrifennu a rhifedd
- Yr iaith Gymraeg a diwylliant
- Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
- Adolygu a gwerthuso

Byddwn yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc fel eu bod nid yn unig yn gwybod eu hawliau, ond hefyd yn parhau hawliau eraill. I helpu i gyflawni hyn, byddwn yn cynnwys plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt ac yn defnyddio dull sy'n cael ei alw'n Ymarfer Adferol sy'n helpu disgyblion i drafod a delio'n uniongyrchol â phroblemau mewn ffordd anfygythiol.

Mae'r Cynllun Lles yn amlinellu blaenoriaethau clir. Y rhai canlynol sydd fwyaf perthnasol i Strategaeth Hygyrchedd Sir Ddinbych.



DYLETSWYDDAU'R AWDURDOD LLEOL AC YSGOLION

Mae'r rhannau canlynol yn amlinellu a nodi cyfrifoldebau ALL ac ysgolion mewn perthynas â:

- cynyddu'r graddau y gall disgyblion anabl gymryd rhan yng nghwricwlwm yr ysgol;
- gwella amgylchedd ffisegol ysgolion; a
- gwella'r modd y mae gwybodaeth ysgrifenedig yn cael ei darparu i ddisgyblionanabl.

GWELLA CYFRANOGIAD YN Y CWRICWLWM

Cyflwyniad

Yn y Ganllaw yng Nghylchlythyr 15/2004 Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae'r cwricwlwm yn cynnwys addysgu a dysgu a darpariaeth ehangach sy'n cynnwys clybiau ar ôl ysgol, hamdden, chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol a theithiau ysgol. Wrth gynllunio ar gyfer gwella mynediad i'r cwricwlwm dylid hefyd ystyried trefniadaeth yr ysgol a'r ystafell ddosbarth a chefnogaeth, amserlennu, opsiynau'r cwricwlwm, y defnydd o staff a gwybodaeth a hyfforddiant staff.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn:

- Monitro ysgolion i sicrhau bod staff yn cael eu hyfforddai ynglŷn â materion sy'n ymwneud â gwella mynediad i'r cwricwlwm, yn cynnwys datblygu gwell dulliau o ran addysgu a dysgu.
- Cynnwys materion yn ymwneud â mynediad o fewn cwmpas Proffil yr Ysgol sy'n datblygu.
- Sicrhau bod ysgolion, a staff yr ysgol, yn ymwybodol o'r amrywiaeth o wasanaethau cefnogi arbenigol sy'n gallu cynnig cyngor ac ymgynghori.
- Parhau i gynnig cyngor arbenigol ac ymgynghori gan ei wasanaethau cefnogi yn cynnwys y Tîm Seicolegol Addysg, a'r Tîm Cefnogi Ymddygiad, y Tîm Dysgu Ychwanegol
- Annog ysgolion i weithio gyda'i gilydd a chasglu a choladu enghreifftiau o arfer da.
- Darparu cefnogaeth benodol ar gyfer archwiliadau cwricwlwm a chynlluniau datblygu'r cwricwlwm drwy'r Gwasanaeth Addysg a Phlant a GwE.

Bydd ysgolion yn:

- Parhau i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys i bob disgybl.
- Parhau i ddatblygu dulliau sy'n gwahaniaethu yn y cwricwlwm er mwyn galluogi i blant ag anabledau gael gwell mynediad iddo.
- Sicrhau bod staff yn cael eu hyfforddi ynglŷn â materion sy'n gwella mynediad i'r cwricwlwm, yn cynnwys datblygu gwell dulliau o safbwynt addysgu a dysgu.
- Rhestru bob disgybl a phob darpar ddisgybl y gwyddys amdano neu amdani sy'n wynebu rhwystrau rhag dysgu a chymryd rhan lawn.
- Asesu ac ystyried anghenion disgyblion a darpar ddisgyblion ac ystyried unrhyw addasiadau rhesymol y gallai fod angen eu gwneud i'w galluogi i gymryd rhan.
- Datblygu archwiliadau cwricwlwm sy'n adolygu patrymau cyrhaeddiad a chyfranogiad gan ddisgyblion anabl mewn gwahanol feysydd o'r cwricwlwm.
- Archwilio'r dulliau a ddefnyddiwyd wrth gynllunio a darparu'r cwricwlwm
- Archwilio anghenion hyfforddi staff mewn perthynas â chynyddu cyfranogiad yn y cwricwlwm.
- Ystyried datblygu banciau adnoddau sy'n manylu ar syniadau a dulliau sy'n cefnogi cyfranogiad cynyddol yn y cwricwlwm.
- Archwilio anghenion disgyblion a darpar ddisgyblion o ran darpariaeth ehangach yr ysgol, yn cynnwys clybiau ar ôl ysgol, hamdden, chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol, a theithiau ysgol.
- Ceisio datblygu a rhannu arfer da yn y maes hwn a chael mynediad i'r cyfleoedd a ddarparwyd gan yr ALL ac ysgolion eraill i hwyluso'r broses hon.

GWELLA AMGYLCHEDD FFISEGOL YSGOLION I DDISGYBLION ANABL

Cyflwyniad

Mae ysgolion yn Sir Ddinbych yn gynyddol ymwybodol y gellid bod angen gwneud addasiadau rhesymol er mwyn diwallu anghenion disgyblion anabl.

Mae gwella amgylchedd ffisegol ysgolion yn cynnwys gwella mynediad ffisegol i ysgolion hefyd. Rhaid i bob adeilad ysgol newydd gydymffurfio â rheoliadau adeiladu presennol a dylent fod yn hygyrch o safbwynt ffisegol i ddisgyblion anabl. Fodd bynnag, bydd llawer o'r gwaith yn y maes hwn yn golygu gwella mynediad i adeiladu presennol. Gellir gwella mynediad i'r amgylchedd ffisegol drwy wneud addasiadau rhesymol ac mae angen i ysgolion ystyried addasiadau posibl y gellid bod angen eu gwneud ar gyfer disgyblion anabl yn gyffredinol, oherwydd mae'n debygol y bydd gan bob ysgol ddisgybl anabl ar ryw adeg. Fodd bynnag, nid yw'n rheidrwydd ar ysgolion i ragweld a gwneud addasiadau ar gyfer pob anabledd y gellid ei ddychmygu, yn hytrach addasiadau rhesymol, cyffredinol yn unig y mae angen iddynt eu hystyried. Bydd yr awdurdod ac ysgolion yn ymgynghori â'r disgybl a rhieni ac yn eu cynnwys os yw'n briodol.

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi ymrwymo i ddatblygu'r ystod o ddarpariaeth sydd ar gael ar draws yr awdurdod ac mae'n cydnabod bod buddsoddi mewn adeiladau'n helpu i wella mynediad i gwricwlwm llawn ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig ac anabledau.

Mae'r ddyletswydd gynllunio cynnwys gwelliannau i amgylchedd ffisegol yr ysgol a darparu cymhorthion ffisegol i gael mynediad i addysg.

Mae'r amgylchedd ffisegol yn cynnwys stepiau, grisiau, cyrbiau, arwynebau allanol a phalmentydd, llefydd parcio, mynedfeydd ac allanfeydd yr adeilad (yn cynnwys dihangfeydd argyfwng), drysau mewnol ac allanol, gatau, toiledau a chyfleusterau ymolchi, goleuadau, system wresogi, system awyru, lifftiau, deunydd gorchuddio'r llawr, arwyddion, arwynebau mewnol, décor a dodrefn ystafelloedd. Mae gwelliannau i fynediad ffisegol yn cynnwys rampiau, rheiliau llaw, lifftiau, drysau lletach, drysau electromagnetig, toiledau a chyfleusterau ymolchi wedi eu haddasu, goleuadau y gellir eu haddasu, bleindiau, dolenni sain, cymhorthion cyfathrebu, acwstig wedi ei dylunio'n dda (goddefol) a systemau canfod ffordd. Hefyd gellir gwneud gwelliannau drwy ail-drefnu lle mewn ystafelloedd, cael gwared ar rwystrau o'r drysau, newid cynllun ystafelloedd dosbarth, darparu lle storio penodedig neu ail-drefnu ystafelloedd ar gyfer pynciau arbennig penodol.

Pan wneir unrhyw welliannau, rhagwelir y cymerir gofal i sicrhau bod swyddogaeth/pwrpas yr ardal yn cael ei baru'n ofalus â'i ddyluniad ffisegol.

Mae gan Gyngor Sir Ddinbych ddull corfforaethol o safbwynt ei holl adeiladau ac felly, mae'r holl waith cynllunio, cynnal ac adeiladu adeiladau ysgolion yn cael ei reoli gan yr Adran Gwasanaethau Eiddo.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn derbyn ac yn hybu'r cysyniad o Ddylunio Cynhwysol a disgwylir y bydd gwaith cynllunio'n ystyried egwyddorion Dylunio Cynhwysol.

Mae'r Awdurdod Lleol:

Fel rhan o waith parhaus y Cyngor, yn asesu cyflwr, addasrwydd a digonolrwydd pob adeilad ysgol fel rhan o baratoi Cynlluniau Rheoli Asedau. Mae'r Cynlluniau hyn yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.

Mae'r Awdurdod yn cynnal Archwiliadau Hygyrchedd ar gyfer pob ysgol a lle y bo'n addas, Asesiadau Effaith Cydraddoldeb.

Caiff y rhain eu hadolygu'n rheolaidd a does yr un yn hŷn na 2 flynedd oed.

Yn ôl yr angen, cynnal archwiliadau hygrychedd ychwanegol gydag ysgolion er mwyn nodi'r holl beryglon a rhwystrau rhag mynediad; a chyfrannu at ddarparu gwybodaeth gynhwysfawr ynglŷn â stoc adeiladau ysgolion.

Trwy Gynllun Rheoli Asedau'r Gwasanaeth, blaenoriaethu buddsoddiad mewn gwelliannau i adeiladau ysgolion yn unol ag angen ac ar y cyd â gofynion y Cynllun Trefniadaeth Ysgolion a datblygiad arfaethedig darpariaeth AAA, ystyried, fel mater o drefn, welliannau i hygrychedd ffisegol wrth adnewyddu adeiladau ysgolion.

Darparu hyfforddiant a chynngor i lywodraethwyr, penaethiaid, staff dysgu ac eraill fel y bo'n briodol mewn perthynas â gwelliannau i amgylchedd ffisegol ysgolion.

Darparu cynngor uniongyrchol ac ymgynghori ag ysgolion mewn perthynas â chynllunio ar gyfer gwelliannau i'r amgylchedd ffisegol.

Gweithio ar sail cynllunio a blaenoriaethu i gynyddu'n gyson nifer yr ysgolion prif ffrwd hygrych ar lefel cynradd ac uwchradd, gyda'r nod o gynnal plant a phobl ifanc, lle y bo'n bosibl a phriodol, o fewn eu hysgolion lleol.

Parhau i gadw gwybodaeth gyfredol am nifer a dosbarthiad oedran plant a phobl ifanc gydag anabledau o wahanol fathau yn yr awdurdod neu rai y disgwylir iddynt ddechrau eu haddysg o fewn yr awdurdod.

Cynnal Is-grŵp Cynhwysiant Cynllun Trefniadaeth Ysgolion er mwyn cyflawni rôl cynllunio a datblygu mewn perthynas â darpariaeth AAA newydd a phresennol e.e. Grŵp Mynediad i Adeiladau bob dau fis a phanel Offer traws sirol (Conwy) bob mis.

Bydd ysgolion yn:

Sicrhau bod archwiliad mynediad mewnol wedi ei gwblhau gan gynnwys y canlyniad yn y cynllun ysgol.

Ceisio cynnwys mân waith adeiladu neu ddatblygiadau i wella hygrychedd, a nodwyd gan yr ysgol, neu drwy'r archwiliad mynediad, i'r cynllun datblygu ysgol.

Parhau i ddarparu cymhorthion/offer arbenigol i ddisgyblion unigol o fewn telerau'r cytundeb a ddisgrifir uchod.

Sicrhau bod hyfforddiant ar gael i'r Llywodraethwyr a staff yr ysgol yn ôl yr angen er mwyn codi ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau'r ysgol a chyfleoedd i wella.

Parhau i gadw gwybodaeth gyfredol am nifer y plant a phobl ifanc gydag anabledau yn yr ysgol, neu y rhagwelir a fydd yn mynychu'r ysgol yn y dyfodol.

Ystyried, ar sail gynlluniedig, sut i wella hygrychedd drwy aildrefnu agweddau o amgylchedd yr ysgol heb addasiadau ffisegol neu waith adeiladu.

GWELLA'R MODD Y DARPERIR GWYBODAETH I DDISGYBLION ANABL

Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn cynnwys cynllunio i sicrhau bod gwybodaeth ysgrifenedig a ddarperir gan yr ysgol i'w disgyblion ar gael i ddisgyblion anabl. Gallai'r wybodaeth gynnwys eitemau fel taflenni, amserlenni, gwerslyfrau neu wybodaeth am ddigwyddiadau'r ysgol. Gallai fformatau eraill ar gyfer darparu gwybodaeth gynnwys: print bras, tâp sain, Braille, system symbolau gydnabyddedig, defnyddio TGCh a darparu gwybodaeth ar lafar, drwy ddarllen gwefusau neu iaith arwyddion. Rhaid darparu gwybodaeth o fewn amser rhesymol, hynny yw, er mwyn iddi fod o ddefnydd priodol i'r disgybl. Er enghraifft, yr amserlen resymol ar gyfer darparu taflen angenrheidiol yn ystod gwers fyddai ar ddechrau'r wers;

Yn ymarferol, rhagwelir y bydd anghenion mwyafrif y disgyblion y bydd angen darparu gwybodaeth iddynt mewn gwahanol fformat eisoes wedi eu cynnwys ym mhrosesau adnabod AAA yr ysgol.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn:

- Sicrhau bod ysgolion yn ymwybodol o'r amrywiaeth lawn o wasanaethau cefnogi sydd ar gael i ddarparu cyngor, arweiniad a chynorthwyo'n uniongyrchol i addasu gwybodaeth i fformatau eraill.
- Adolygu'n rheolaidd ei drefniadau i ddarparu gwybodaeth mewn fformatau eraill i sicrhau bod ganddo fynediad at gapasiti digonol yn yr achos hwn.
- Parhau i ddarparu cyngor arbenigol i ysgolion o safbwynt disgyblion ag anghenion synhwyraidd.
- Annog ysgolion, yn cynnwys ysgolion arbennig, i rannu syniadau a chasglu a choladu enghreifftiau o arfer da ar gyfer ei dosbarthu.

Bydd ysgolion yn:

- Codi ymwybyddiaeth ymysg staff o'r angen i ddarparu gwybodaeth mewn fformatau eraill os bydd angen.
- Cadw gwybodaeth gyfredol am anghenion disgyblion ar gyfer darparu gwybodaeth mewn fformatau eraill a sicrhau ei bod yn cael ei rhannu ymysg staff.
- Casglu a rhannu enghreifftiau o arfer da ymysg staff.
- Adolygu ac archwilio'n rheolaidd ddull yr ysgol o ddarparu gwybodaeth ysgrifenedig yn gyffredinol er mwyn ystyried a ellid gwella'r fformat yn gyson a gwella hygyrchedd yn gyffredinol.
- Ceisio cyngor a chefnogaeth arbenigol yn yr achosion hynny sydd y tu hwnt i arbenigedd yr ysgol.

TREFNIADAU MONITRO, ADOLYGU A GWERTHUSO

Bydd cynnydd y Strategaeth Hygyrchedd yn cael ei fonitro drwy gyfarfodydd rheolaidd o'r Grŵp Mynediad i Adeiladau a thrwy gael barn

- Plant a phobl ifanc
- Rhieni/gofalwyr
- Ysgolion a gynhelir
- Budd-ddeiliaid eraill

Bydd y ddogfen hon yn cael ei rhannu ag ysgolion ac ar gael i rieni/disgyblion.

Bydd gwasanaethau awdurdod lleol, mewn partneriaeth ag ysgolion yn gweithredu'r strategaeth hon i sicrhau bod plant anabl yn cael profiad cwbl gynhwysol mewn ysgolion.